PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 16 MAWRTH 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd K Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Stubbs, Ahmed, Driscoll, Hudson, Jones-Pritchard, Keith Parry a/ac Wong |

17 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jacobsen.

18 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

19 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 2 Mawrth 2022 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

20 : DEISEBAU

Daeth y ddeiseb fel a ganlyn i law:

21/20687/MJR, Canolfan y Ddraig Goch a Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd

Mewn perthynas â'r uchod, siaradodd y deisebwr ac ymatebodd yr asiant.

21 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Bu'r Pwyllgor yn trafod y rhestr o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniad yn unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1980 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1980:

**CEISIADAU A RODDWYD YN AMODOL AR YMRWYMO I GYTUNDEB ADRAN 106 RHWYMOL:**

BUTETOWN – 21/02687/MJR
CANOLFAN Y DDRAIG GOCH A NEUADD Y SIR, GLANFA'R IWERYDD

Cais am ddatblygiad arfaethedig rhan o Uwchgynllun Defnydd Cymysg yn yr Harbwr Mewnol, Bae Caerdydd. Gan gynnwys manylion amlinellol ar gyfer hyd at 890 anheddiad preswyl (defnydd Ddosbarth C3), Gwesty â 1,090 Lle Gwely (defnydd Ddosbarth C1), 19,500 metr sgwâr o ofod llawr Cyflogaeth (defnydd Dosbarth B1),

27,500 metr sgwâr o ofod llawr Hamdden (defnydd dosbarthiadau D1 a D2) a 12,310 metr sgwâr o ofod llawr Manwerthu (defnydd dosbarthiadau A1 ac A3). Ynghyd â thir cyhoeddus cysylltiedig, mannau agored, tirlunio caled a meddal, draenio, cerdded, beicio, mannau parcio a seilwaith trafnidiaeth arall. Ynghyd â manylion llawn ar gyfer arena aml-ddefnydd, dan do (defnydd Dosbarth D2) gyda defnyddi ategol a chaffi (defnydd Dosbarth A3) a Gwesty â 182 Gwely (defnydd Dosbarth C1) ynghyd â'r Amgylchedd Cyhoeddus, Tirlunio Caled a Meddal, Draenio, Cerdded, Beicio, Parcio Ceir a Seilwaith Trafnidiaeth Cysylltiedig Arall

PENDERFYNWYD:

ARGYMHELLIAD 1: Yn amodol ar ddileu Cyfarwyddyd Daliannol Llywodraeth Cymru, y dylid rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r partïon perthnasol sy'n ymrwymo i gytundeb cyfreithiol o dan ddarpariaethau ADRAN 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 o fewn 6 mis i ddyddiad y Penderfyniad hwn, oni chytunir fel arall gan y Cyngor yn ysgrifenedig, mewn perthynas â materion a nodir ym mharagraffau 7.195 i 7.201 o'r adroddiad hwn a'r amodau canlynol:

ARGYMHELLIAD 2: (gyda'r holl argymhellion dilynol wedi'u hail-rifo) Rhoddir yr awdurdod dirprwyedig hwnnw i'r Pennaeth Cynllunio a’r Rheolwr Gweithredol: Datblygu Strategol a Chreu Lleoedd, i wneud newidiadau i amodau a/neu Benawdau Telerau'r cytundeb cyfreithiol gofynnol, yn amodol ar ymgynghori â'r Cadeirydd Cynllunio, hyd at y pwynt lle mae'r cytundeb cyfreithiol wedi'i lofnodi a bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi.

Yn amodol ar ddiwygio Amod 6 fel a ganlyn:

'Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd, ni fydd yr arena a'r gwesty a gymeradwywyd drwy hyn yn cael eu defnyddio'n fuddiol hyd nes y bydd parcio beiciau, i gynnwys parcio beiciau diogel ac wedi'i orchuddio ar gyfer staff ac ymwelwyr â'r Arena a'r gwesty, wedi'i ddarparu ar y safle yn unol â chynllun manwl a fydd wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd parcio beiciau cymeradwy o'r fath yn cael ei gadw a'i gynnal ar ôl hynny ar gyfer defnydd parcio beiciau' .

**Dylid nodi na chaniateir gwneud unrhyw benderfyniad oni dderbynnir awdurdodiad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru yn unol â'i Gyfarwyddyd Daliannol dyddiedig 12 Rhagfyr 2021.**

22 : ADRAN 257 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF - GORCHYMYN CAU LLWYBRAU TROED YN LINCOLN COURT A PENNSYLVANIA

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried dileu rhannau o briffordd segur, fel rhan o Gynllun Adfywio Cymdogaethau, i wella ansawdd esthetig yr ardal drwy brosesu Gorchymyn Cau Deddf Priffyrdd 118 1980.

PENDERFYNWYD:

CYMERADWYODD y Pwyllgor Cynllunio y cais sy'n caniatáu i Swyddogion Priffyrdd brosesu Gorchymyn Cau Adran 118 drwy'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

23 : ADRAN 118 DEDDF PRIFFYRDD 1980 - GORCHYMYN CAU LLWYBRAU TROED YN LINCOLN COURT A PENNSYLVANIA

Hysbyswyd y Pwyllgor Cynllunio bod tair rhan o Briffordd yn destun Caniatâd Cynllunio 21/02935/MNR ar gyfer datblygu iardiau dros lwybrau sydd wedi dadfeilio. Mae llwybrau amgen i'r cyhoedd eu defnyddio a bydd yr ardal yn cael ei gwella ar gyfer preswylwyr.

PENDERFYNWYD:

CYMERADWYODD y Pwyllgor Cynllunio gais A257. Bydd hyn yn caniatáu i Swyddogion ofyn i'r Gwasanaethau Cyfreithiol brosesu'r Gorchymyn Cyfreithiol Cau.

24 : ADRAN 257 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF - GORCHYMYN CAU LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 2 LLANEIRWG

Dywedwyd wrth y Pwyllgor Cynllunio fod Asbri Planning wedi derbyn caniatâd cynllunio (Rhif Cais 20/01306/MJR) ar gyfer datblygiad preswyl newydd. Bydd y Llwybr Troed Cyhoeddus yn cael ei ymgorffori mewn gerddi eiddo preifat ac mae angen gorchymyn cau.

PENDERFYNWYD:

CYMERADWYODD y Pwyllgor Cynllunio Gais Dargyfeirio Adran 257 i ganiatáu i'r Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus gyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol i brosesu'r Gorchymyn Cyfreithiol.

25 : Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM APELIADAU

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod penderfyniad gan y Pwyllgor i wrthod cais i wneud gorchymyn yn unol ag Adran 53 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn destun apêl i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru. Cadarnhawyd yr apêl a bydd y gorchymyn perthnasol yn cael ei wneud yn awr.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

26 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i’w trafod.

27 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 6 EBRILL 2022

Daeth y cyfarfod i ben am 12.34 pm